Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llan Ffestiniog
# Neuadd St Michael
# Llan Ffestiniog
# LL41 4NA

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llan Ffestiniog yn gylch cyfrwng Cymraeg.  Mae'n cyfarfod yn Neuadd Eglwys, pentref Llan Ffestiniog sydd yn awdurdod lleol Gwynedd.  Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos.  Mae wedi'i gofrestru ers 2013 i dderbyn hyd at 20 o blant fesul sesiwn.  Mae 12 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o dair i bedair blwydd oed.   Ar hyn o bryd, ariennir pedwar o blant i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mai Cymraeg yw iaith y cartref.  Adeg yr arolygiad, nid oedd gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar hyn o bryd, mae yna dri aelod o staff, yn cynnwys arweinydd y lleoliad a dau ymarferwr.  Mae arweinydd y lleooliad wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2015.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2015, a chan Estyn ym mis Gorffennaf 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod ymarferwyr yn creu ethos cartrefol ac awyrgylch gynnes a chynhaliol
- eu bod oll yn ennyn hyder plant a'u hannog i fwynhau dysgu ac ymddwyn yn dda
- bod addysgu yn effeithiol iawn
- bod ymarferwyr yn fodelau da o iaith raenus
- eu bod yn darparu cyfloed da iawn i ymdrin â mwynhau llyfrau
- eu bod oll yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd
- eu bod yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu medrau meddwl, datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- eu bod yn gwneud defnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael iddynt
- bod ansawdd, amrywiaeth a defnydd o'r holl adnoddau yn dda
- bod trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i gadw'n iach a heini

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod yr arweinydd a'r person cofrestredig yn cydrannu'r un weledigaeth a chyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad
- bod ganddynt gyd-ddealltwriaeth o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella
- bod yr ymarferwyr yn rhannu ymdeimlad cryf o bwrpas
- eu bod yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- bod ganddynt oll agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- eu bod yn croesawu cyngor a chymorth ac yn gweithredu arno'n ddiymdroi
- bod y pwyllgor rheoli yn gefnogol a gweithredol
- bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau arian wrth gefn i gefnogi datblygiad a dyfodol y lleoliad

A2 Diweddaru'r cynllun datblygu yn rheolaidd i adlewyrchu sefyllfa gyfredol y lleoliad

A3 Strwythuro cofnodion y pwyllgor rheoli i sicrhau eu bod yn nodi cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun datblygu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad gynlluniau trylwyr iawn ar gyfer darparu profiadau dysgu pwrpasol ac ysgogol yn yr ardal dan do a thu allan. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw dyledus i bob maes dysgu gan fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r strwythur yn darparu cyfleoedd buddiol iawn i blant wneud dewisiadau drostynt eu hunain a chychwyn gweithredu'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn creu cyfleoedd cadarnhaol iawn i blant ddatblygu medrau llythrennedd. Enghraifft dda o hynny, yw cyfle mewn tasg ffocws i blant fyseddu deunyddiau amrywiol a thrafod eu manteision i aderyn adeiladu nyth clyd. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i blant ddysgu geirfa a chysyniadau perthnasol i'w defnyddio mewn gweithgareddau eraill.

Mae'r lleoliad yn creu cyfleoedd gwerth chweil i blant wrando ar storiâu deniadol mewn ardal gyfforddus. Bryd hynny, mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i greu diddordeb plant yn y llyfrau gwahanol a modelu sut i drin llyfrau. Maent yn sicrhau siawns rheolaidd i'r plant ddilyn cyfarwyddiadau wrth ymdrin â'u byrbryd ac ailgylchu'r gweddillion.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddeall pwrpas ysgrifennu wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn eu cefnogi i ffurfio llythrennau a rhifau yn glir gan drefnu cyfleoedd cyson iddynt adnabod eu henwau; megis wrth hunan gofrestru.

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau effeithiol i ddatblygu medrau rhifedd plant mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn sicrhau cyfleoedd da i blant gyfri ac adnabod rhifolion ar draws pob maes dysgu. Un enghraifft dda yw'r drefn o gyfrif sawl plentyn sy'n bresennol yn ddyddiol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n systematig i blant ddosbarthu gwrthrychau o wahanol faint, siâp a lliw yn gywir. Maent hefyd yn

creu cyfleoedd effeithiol iawn i blant ddysgu a deall geirfa fathemategol megis mawr a bach, llawn a gwag, tal a byr, cyflym ac araf wrth chwarae yn yr ardal tywod a dŵr tu allan. Maent yn annog plant i ddefnyddio'r medrau a'r eirfa benodol hwn ymhob sefyllfa; er enghraifft, wrth chwarae rôl.

Mae'r lleoliad yn hybu plant i sylweddoli bod angen trin popeth byw gyda gofal, a pharch drwy blannu hadau ac archwilio eu tyfiant gyda chwyddwydrau a thapiau mesur. Mae'r profiadau hyn a holl awyrgylch y lleoliad yn hybu datblygiad medrau meddwl plant yn dda ac yn eu cyflyru i ddatrys problemau drostynt eu hunain. Mae'r lleoliad yn creu cyfleoedd gwerthfawr i blant arbrofi gyda lliwiau a phatrymau i ddatblygu eu medrau creadigol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau corfforol plant wrth ddelio ag offer bach fel sisyrnau a brwshys glud a phaent. Yn ogystal, darparant gyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol mewn cerbydau symudol yn yr ardal tu allan. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i redeg yn rhydd ac egnïol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy drefnu ymweliadau diddorol i gefnogi dealltwriaeth o'u themâu megis 'Gwanwyn'. Maent yn gwahodd ymwelwyr i alw heibio i siarad â'r plant; er enghraifft am ofalu am faban newydd anedig a thro arall i arddangos cywion newydd eu hesgor. Maent yn trefnu teithiau cerdded o gwmpas eu hardal leol i'r plant gael cyfle i werthfawrogi natur a dysgu am newidiadau tymhorol.

Maent yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddysgu am eu treftadaeth trwy ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Bryd hynny, mae'r plant yn dysgu am wisgoedd, caneuon a bwydydd traddodiadol Cymreig. Mae'r ddarpariaeth i ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth plant o ddiwylliannau eraill trwy lyfrau a lluniau amrywiol a doliau o dras wahanol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gweithredol dda yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant sydd yn eu galluogi i ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau yn y lleoliad. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Maent yn sicrhau cydbwysedd da iawn rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn ac eraill a gânt eu harwain gan oedolyn. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno tasgau ffocws yn ysgogol iawn i ennyn sylw a chwilfrydedd naturiol plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel eu bod yn dyfalbarhau ar dasgau yn llwyddiannus. Mae llif y sesiynau yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr oll yn cynnig cymhelliant buddiol iawn i'r plant wrth arwain a rheoli grwpiau. Mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu'n llwyddiannus. Maent yn cwestiynu'n bwrpasol er mwyn datblygu medrau meddwl plant a'u hannog i ddatrys problemau trwy ddweud eu barn a gwneud penderfyniadau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn cyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'r plant mwy abl yn effeithiol.

Maent oll yn fodelau iaith da, gan rannu geirfa gyfoethog gyda'r plant trwy eu dewis o themâu a'u defnydd o straeon, caneuon a rhigymau amrywiol. Maent hefyd yn ysgogi diddordeb plant yn gyson mewn darllen trwy fyseddu llyfrau a modelu sut ymdrin â nhw.

Maent oll yn rheoli ymddygiad plant yn sensitif ac effeithiol iawn. Dilynant drefn gyson gan ddangos parch tuag at bob plentyn. Enghraifft dda o hyn yw eu bod yn hael yn eu cymeradwyaeth o ymdrechion da sydd yn hybu hyder ac annibyniaeth plant.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac o ganlyniad, maent yn cydnabod eu hanghenion ac yn cyd-drafod eu cynnydd yn rheolaidd. Mae eu systemau asesu yn dechrau bwydo eu cynllunio ar gyfer camau'r dysgu nesaf plant. Mae'r lleoliad yn cadw rhieni'n hysbys am gynnydd eu plant drwy drafodaethau anffurfiol gydol y flwyddyn. Mae'r rhieni yn derbyn cofnod deniadol o waith eu plentyn ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r broses o gynnwys y rhieni yn y broses o asesu fel eu bod yn ymwybodol o beth allant wneud i helpu eu plant i wella ar y gweill ond nid yw wedi gwreiddio'n llawn eto.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus, ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch plant. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb o oedolion i blant yn hael. Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn fuddiol. Mae plant yn dod a'u byrbryd eu hunain ac mae ymarferwyr yn arddangos ymwybyddiaeth gwerth chweil o ofal plant. Un enghraifft benodol o hyn yw'r modd mae'r ymarferwyr yn torri ffrwythau i faint addas i blant ifanc. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gwisgo'u cotiau cyn mynd allan ac yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog yn yr awyr agored. Prin yw'r cyfle i alluogi plant i redeg yn rhydd ac egnïol.

Mae systemau priodol yn eu lle i nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

Mae trefniadau'r lleoliad i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i fyfyrio a rhyfeddu ar dyfiant hadau a phlanhigion. Mae'r holl staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu anniddigrwydd. Maent oll yn annog gwerthoedd craidd fel caredigrwydd, tegwch a rhannu. Maent yn hybu datblygiad cymdeithasol drwy ysgogi'r plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithio hapus a chymryd eu tro'n gwrtais wrth chwarae. Mae'r drefn i ddysgu am ddiwylliannau eraill drwy dynnu sylw at luniau, llyfrau a doliau o wahanol wledydd yn addas i oedran a phrofiad plant.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd yn ystod amser byrbryd i ailgylchu bwydydd a phapur gwastraff ar wahân.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau addas i amddiffyn plant gan gynnwys asesiadau risg cynhwysfawr. Maent yn recriwtio'n ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn y maes. O ganlyniad, mae trefniadau lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae lleoliad yn gymuned gartrefol a chynhwysol ac iddo gyflenwad o ymarferwyr profiadol a chanddynt gymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r berthynas weithredol rhwng yr oedolion a'r plant yn gynnes a chynhaliol iawn. Mae hyn yn sicrhau fod plant yn teimlo'n hapus a'u bod yn cyfri. Maent yn darparu profiadau pwrpasol ac ysgogol sy'n dal sylw plant yn llwyddiannus iawn am gyfnodau sylweddol. Maent yn sicrhau bod yr holl blant yn manteisio'n gyfartal ar amrediad o weithgareddau. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r lle sydd ar gael iddynt yn dra effeithiol. Cynigiant amgylchedd difyr ac ysgogol dan do a gwnânt ddefnydd priodol o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. Maent yn trefnu'r ardal dan do yn effeithiol i ardaloedd priodol fel pabell ddarllen a man cyfforddus ar gyfer amser cylch. Mae'r arddangosfeydd yn ddeniadol ac yn dathlu ymdrechion plant yn fuddiol. Mae'r adnoddau eraill yn bwrpasol ac yn hybu'r dysgu yn dda; er enghraifft siart sy'n dathlu agwedd ac ymdrechion plant. Mae ardal awyr agored, sef buarth y neuadd, er braidd yn gyfyng yn ddiogel ac yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal yn dda. Maent yn mynd am dro yn achlysurol o gwmpas y pentref i sylwi ar newidiadau tymhorol natur.

Mae gan y lleoliad adnoddau amrywiol sydd yn hygyrch ac o ansawdd. Yn ddiweddar, ac yn unol â'u blaenoriaethau, maent wedi pwrcasu cyflenwad o lyfrau deniadol iawn i'r plant i ysgogi eu diddordeb mewn darllen cynnar. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau dysgu plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r person cofrestredig yn cydrannu gweledigaeth a chyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Llwyddodd yr arweinydd i gyflwyno'r weledigaeth hon gyda'r holl ymarferwyr fel bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u dyletswyddau dyddiol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cydrannu ymdeimlad cryf o bwrpas ac maent yn cydweithio'n effeithiol ac ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu ysgogol.

Mae hyn yn creu ethos cartrefol a phwrpasol lle mae'r plant yn hapus ac yn meithrin hyder ac annibyniaeth. Mae gan bob ymarferydd ddisgwyliad uchel ohono ei hun sy'n arwain at safon dda o ofal ac addysg yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn adnabod anghenion plant unigol yn dda i'w galluogi i ddarparu ystod dda o brofiadau pwrpasol iddynt.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn cynnig cymorth gweithredol sy'n cyfrannu'n effeithiol at rediad hwylus y lleoliad. Un o'u cryfderau yw bod y pwyllgor yn sefydlog ac yn cynnwys cynrychiolwyr newydd o rai o sefydliadau'r pentref. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion strategol, cynnal y lleoliad a dulliau codi arian. Fodd bynnag, oherwydd bod cofnodion y cyfarfodydd yn rhy anffurfiol does dim strwythur i nodi a monitro cynnydd yn effeithiol erbyn targedau'r cynllun datblygu yn systematig.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â'u bod yn darparu cyfleoedd da i ddysgu am fwyta'n iach a chadw'n heini.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinwyr ymrwymiad cadarnhaol i wella'n barhaus ac mae'r broses hunan arfarnu yn rhan naturiol o fywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r tîm yn trafod sut i wella'r ddarpariaeth yn gyson ac yn sgwrsio gyda'r plant am eu hoff a'u cas bethau. Mae arweinydd yn annog rhieni i fynegi barn drwy holiaduron ac i rannu eu syniadau mewn blwch pwrpasol yn y cyntedd. Maent yn defnyddio amrediad o arfarniadau allanol yn effeithiol er mwyn ffocysu ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth bendant o gryfderau a meysydd gwelliant y lleoliad. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod y cylch yn dda ac o ganlyniad, mae'r broses hunan arfarnu'n llwyddiannus.

Maent yn trosglwyddo llawer o'r wybodaeth i'r cynllun datblygu fel bod y berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn gadarn. Mae'r dystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn enwedig mewn datblygu medrau darllen a TGCh. Fodd bynnag, nid oes ganddynt broses systematig i fwydo a diweddaru'r ddogfen. Felly nid yw'n ddigon defnyddiol i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol nac i adrodd i'r pwyllgor rheoli i sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at dargedau penodol.

Gweithredodd yr arweinwyr yn syth yn dilyn arolygiad diwethaf Estyn, gan sicrhau, er enghraifft, bod plant mwynhau trin llyfrau ac yn troi atynt yn annibynnol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod fuddiol o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n adeiladol at les a gofal plant, ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar arweinyddiaeth.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rheini yn gadarnhaol iawn. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth bwrpasol â'r rhieni am gynnydd a lles eu plant trwy gysylltiad anffurfiol dyddiol. Maent yn cyflwyno 'Llyfr Trysor' - cofnod deniadol o luniau a gwaith plant - ar ddiwedd cyfnod plant yn y lleoliad. Maent yn rhannu gwybodaeth am unrhyw newidiadau arwyddocaol, ffocws eu themâu a threfniadau codi arian ar dudalen ar wefan gymdeithasol. Mae'r rhieni a'r gymdeithas leol yn cefnogi'r lleoliad yn gyson trwy weithgareddau codi arian. Trwy hyn, mae'r lleoliad yn pwrcasu adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant, megis i blannu hadau ac arsylwi eu tyfiant fel rhan o'u thema 'Yn yr Ardd'.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol leol yn dda. Yn ddiweddar, maent wedi cytuno amserlennu'r defnydd o fuarth a chae'r ysgol er lles y lleoliad er mwyn sicrhau mwy o gyfle i blant redeg yn rhydd. Mae'r plant yn ymweld â'r ysgol yn ystod tymor yr haf i'w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu plant. Er enghraifft, maent yn hybu dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas a'u hardal leol drwy eu tywys ar deithiau amrywiol o gwmpas y pentref. Mae'r cylch wedi'i leoli yn neuadd yr eglwys leol ac mae'r berthynas rhwng yr arweinwyr a'r eglwys yn datblygu'n fuddiol.

Mae'r bartneriaeth gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin yn adeiladol ac yn cynorthwyo gwelliant parhaus y lleoliad yn fuddiol. Mae'r arweinydd yn agored i'w syniadau newydd a'u hargymhellion ac yn gweithredu arnynt yn ddiymdroi i ddatblygu'r lleoliad ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc. Gwnânt ddefnydd priodol o ddiddordebau a medrau staff i wella profiadau dysgu plant; er enghraifft i hyrwyddo ymwybyddiaeth o liw a phatrwm wrth baentio.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r rhain yn effeithiol i nodi anghenion datblygiad. Enghraifft dda o hyn yw cynnwys pob ymarferydd yng ngweithrediad hyrwyddo plant i fwynhau ymdrin llyfrau. Fel canlyniad, mae plant yn elwa o'r cysondeb ac ansawdd y profiadau.

Mae'r holl ymarferwyr yn manteisio ar ystod eang o hyfforddiant a datblygiad pwrpasol i adeiladu ar eu medrau a'u galluogi i fod yn gyfredol wrth eu gwaith. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ar hyrwyddo ymddygiad plant wedi arwain at greu ethos cadarnhaol iawn. Maent hefyd yn barod i wneud cysylltiadau niferus a lleoliadau eraill i rannu arfer dda. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau diddorol i'r ardal dan do a'r ardal tu allan. Mae'r cyflenwad newydd o lyfrau deniadol a cherbydau symudol a'u heffaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd a chorfforol plant yn enghraifft dda o hyn.

Mae'r arweinwyr yn cynhyrchu mantolen ariannol yn flynyddol sy'n cael ei gwirio'n allanol a'i gyflwyno mewn adroddiad blynyddol i'r Mudiad Meithrin. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl anghenion y lleoliad. Un enghraifft dda o hyn yw'r babell lyfrau i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd plant. Esiampl dda arall yw'r cydbwysedd yn y dewis o wisgoedd yn yr ardal chwarae rôl i ennyn brwdfrydedd y plant i gyd i ddatblygu eu medrau creadigol.

Mae'r arweinwyr yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy, serch hynny, prin yw'r arian wrth gefn.

O ystyried yr addysgu effeithiol a'r arweiniad clir a phendant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |